envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Croeso i'r rhifyn cyntaf o gylchlythyr PSWMC 2010/11! Yn y rhifyn hwn byddwn yn rhoi'r wybodaeth gryno ddiweddaraf i chi ar uchafbwyntiau'r ymgyrch o 2009/10 a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan yr ymgyrch yn 2010/11.

Uchafbwyntiau 2009/10

"Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r PSWMC wedi helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i nodi 3,000 o dunelli o wastraff posibl y gellid ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi drwy ddefnyddio'r lefelau amrywiol o gymorth a oedd ar gael"

Gwnaethom hefyd gynnal Gwobrau Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Sector Cyhoeddus yng Nghymru am y tro cyntaf erioed yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Roedd y digwyddiad hwn yn dathlu'r holl waith ardderchog a wnaed gan y sector cyhoeddus yng Nghymru i wella ei berfformiad amgylcheddol. Enillwyr eleni oedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Coleg Llandrillo, Jamie Lewis o Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, Dinas a Sir Abertawe, Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol a Phrifysgol Cymru, Casnewydd.

Cymerwch olwg ar restr fer ac enillwyr y Gwobrau.

Adfywio'r wefan

Fel rhan o'r ymgyrch Tuag at Ddyfodol Diwastraff rydym wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod gwefan yr ymgyrch yn adlewyrchu hyn o ran ei neges a phrofiad y defnyddiwr. Mae'r wefan yn haws i'w darllen a'i defnyddio ac nid oes yn rhaid mewngofnodi. Mae hefyd yn haws symud o un dudalen i'r llall ar y wefan ac mae peth o'r cynnwys ar gael yn ddwyieithog. Beth am ymweld â gwefan PSWMC i gael cipolwg?

Ffocws Newydd

Mae 2010/11 yn flwyddyn o newid i'r ymgyrch. Caiff PSWMC ei halinio'n agosach â Strategaeth Ddiwastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Caiff gweithgareddau'r PSWMC eu hadeiladu ar amcan Tuag at Ddyfodol Diwastraff eleni. Felly, bydd y cymorth sydd ar gael i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn canolbwyntio ar frig yr hierarchaeth wastraff h.y. cael gwared ar wastraff. Drwy wneud hynny, gall y sector cyhoeddus leihau'r gwastraff a gynhyrchir ganddo a gwneud arbedion ariannol ar yr un pryd.

Cymorth ar gyfer 2010/11

Bydd y cymorth yn canolbwyntio ar rannu arfer gorau, cymorth ar y safle ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff uchel a chronfa grant. Mae'r gronfa grant bellach ar agor ac mae'n cael ei rhedeg fel cystadleuaeth eleni. Mae'r manylion llawn a ffurflen gais y gellir ei lawrlwytho ar gael ar dudalennau'r gronfa ar wefan yr Ymgyrch Lleihau Gwastraff yn y Sector Cyhoeddus. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 9fed Awst 2010.



envirowise

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Public Sector Waste Minimisation Campaign
Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus
Towards Zero Waste Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Adnoddau ac offer

Hefyd, mae gan y wefan newydd amrywiaeth o adnoddau ac offer a all eich helpu chi a'ch cydweithwyr i gael gwared ar wastraff. Mae'r adnoddau a'r offer hyn yn cynnwys y Carboniadur a gynlluniwyd i wella'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â rheoli gwastraff. Bydd yn eich helpu i amcangyfrif yr effeithiau nwy tŷ gwydr o reoli gwastraff mewnol mewn ffyrdd gwahanol.

Gall teclyn Eco-ddangosydd Envirowise (uchod) roi gwybodaeth ddefnyddiol i chi am effeithiau amgylcheddol eich sefydliad a'r arbedion ariannol y gellir eu gwneud drwy fynd i'r afael â'r effeithiau hyn.

Mae pecyn cymorth cyfathrebu NEWYDD hefyd ar gael. Cafodd y ddogfen ddefnyddiol hon ei chynllunio i'ch helpu i gyfleu eich mentrau lleihau a gwaredu gwastraff yn effeithiol i'ch staff a'ch cydweithwyr.



Ymgyrchoedd Ailgylchu

Y llynedd, cymerodd rhai sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru ran mewn un o ddau gynllun ailgylchu cenedlaethol drwy'r PSWMC - Mae Pob Can yn Cyfrif a RecycleZone.

Mae canlyniadau Mae Pob Can yn Cyfrif yn dechrau ein cyrraedd, a hyd yma mae 4 o'r 11 safle a gymerodd ran wedi arbed dros 3.5 tunnell o ganiau alwminiwm rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

every can counts

Mae'r ddwy ymgyrch yn chwilio am sefydliadau i gymryd rhan o hyd. Ewch i wefan PSWMC i gael rhagor o wybodaeth.

Astudiaethau Achos

Mae ystod o astudiaethau achos ar gael a luniwyd i'w defnyddio fel posteri i ddarparu enghreifftiau defnyddiol o arfer da yn ymwneud â'r ffordd y mae rhai sefydliadau sector

cyhoeddus wedi goresgyn rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â lleihau gwastraff. Mae'r posteri ar gael i'w lawrlwytho yn ddwyieithog.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus, cysylltwch â ni yn public.sector@envirowisewales.org.uk new ewch i wefan PSWMC.